


---

# Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – Adroddiad Blynyddol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2014/15

---

Rheolwr Perthynas:  
Robin Bradfield  
Arolygiaeth Gofal  
Iechyd Cymru  
Ffôn: 0300 062 8976



## Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ei swyddogaeth yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi cael ei gynhyrchu gan AGIC fel crynodeb o weithgarwch AGIC rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae'r canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'n gweithgarwch o fewn y bwrdd iechyd hwn ac eraill fel a ganlyn:

- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd
- Bod dinasyddion yn gallu mynd at wybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, cymesur, proffesiynol, cydgysylltiedig ac yn ychwanegu gwerth

## Trosolwg

Yn ystod 2014/15 canolbwyntiodd rhaglen arolygu AGIC ar greu cwmpas eang ledled y GIG yn ôl math o leoliad ac arbenigedd. Yn ystod y flwyddyn, mae AGIC wedi cynnal 21 ymweliad yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, oedd yn cynnwys chwe arolygiad urddas a gofal hanfodol, wyth arolygiad deintyddol, pedwar arolygiad meddyg teulu, a thri math arall o ymweliad (un laser, un Deddf Iechyd Meddwl, ac un uned iechyd meddwl). Nodir lleoliadau a dyddiadau'r ymweliadau hyn isod.

## Themâu Allweddol

### **Arolygiadau urddas a gofal hanfodol**

Arolygiadau urddas a gofal hanfodol yw sylfaen dull arolygu AGIC yn y GIG yng Nghymru. Rydym wedi cynyddu ein presenoldeb a'n hamlygrwydd yn y GIG ac wedi sicrhau bod ein canfyddiadau'n cael eu hadrodd mewn modd prydlon ac adeiladol sy'n cefnogi gwelliant.

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol yn ystyried pedair thema:

- **Profiad y claf**

Gwnaethom barhau i wrando ar lais y claf (oedolion a phlant). Gwnaethom sefydlu cronfa fwy o adolygwyr lleyg a dderbyniodd well cymorth a chyfathrebu gan staff AGIC ac a'n helpodd i sicrhau bod safbwynt y claf yn cael ei adlewyrchu yn ein gwaith.

- **Hanfodion gofal**

Parhaodd ein harolygiadau i ganolbwyntio ar gyflenwi agweddau sylfaenol gofal a chanlyniadau i gleifion ym mhob lleoliad gofal iechyd. Rydym wedi cadw hyn dan sylw ac wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn ystod ei hadolygiad o Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – sy'n ymgorffori agweddau sylfaenol gofal, i sicrhau ein bod yn parhau i alinio ein dull gweithredu gyda disgwyliadau'r GIG yng Nghymru.

- **Rheolaeth ac arweinyddiaeth**

Rydym wedi gwella ein hadolygiad o reolaeth ac arweinyddiaeth i roi prawf ar ddiwylliannau mewn gwasanaethau a sefydliadau ac i adolygu sut mae sefydliadau'r GIG yn monitro eu perfformiad mewnol mewn perthynas â safonau sylfaenol urddas a gofal hanfodol.

- **Ansawdd a diogelwch**

Rydym yn cydnabod bod unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd o bosibl yn agored i niwed, ac rydym wedi sicrhau bod ein rhaglenni gwaith arferol, dulliau arolygu, ac arferion gwaith yn canolbwyntio ar i ba raddau mae sefydliadau gwasanaeth gofal iechyd yn darparu cymorth priodol i sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth sydd mewn sefyllfaoedd a all fod yn agored i niwed yn cael eu diogelu.

## **Themâu arolygiadau:**

Nodwyd y themâu allweddol canlynol yn ein harolygiadau yn ystod 2014/15.

- **Ansawdd profiad y claf:**

Ar y cyfan, mae'r adborth cleifion a dderbyniwyd gan AGIC wedi bod yn gadarnhaol, a gwelwyd bod y staff yn foesgar, yn gydwytbodol, yn broffesiynol, ac yn barchus.

- **Cyflenwi hanfodion gofal**

Ar y cyfan, gwelsom staff brwdfrydig a gweithgar a oedd yn cyflenwi'r hanfodion gofal. Er hynny, gwnaeth ein gweithgarwch arolygu nodi rhai themâu cyson yn ymwneud ag agweddau ar gyflenwi hanfodion gofal. Nodir y themâu hyn a'r camau gweithredu mae angen i'r bwrdd iechyd eu cymryd isod.

*Parchu pobl* – sicrhau bod camau digonol yn cael eu cymryd i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion.

*Gorffwys, cwsg a gweithgareddau* – lleihau, cyn belled â bo hynny'n ymarferol, effaith aflonyddwch amgylcheddol.

*Sicrhau cysur, lleddfu poen* – sicrhau bod dogfennau poen priodol yn cael eu defnyddio a'u bod yn ddigon manwl i egluro'r rhesymau dros benderfyniadau a wneir yn hyn o beth.

*Hylendid personol, ymddangosiad a gofal traed* – sicrhau bod iechyd traed yn cael ei reoli'n iawn trwy gael ei asesu a'i fonitro gan ddefnyddio dull sy'n cydymffurfio ag arferion gorau. Hefyd, sicrhau bod cynnal iechyd traed cleifion â diabetes yn elfen graidd o'u cynllunio gofal.

*Bwyta ac yfed* – sicrhau bod cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta.

- **Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth**

Ar y cyfan, gwelsom dimau o staff oedd yn ymroddgar a phrofiadol yn darparu gofal i gleifion. Roedd hyn er gwaethaf rhai gwendidau o ran arweinyddiaeth

ward a welwyd yn ystod rhai arolygiadau. Er hynny, gwnaeth ein gweithgarwch arolygu nodi rhai themâu cyson yn ymwneud ag ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth. Nodir y themâu hyn a'r camau gweithredu mae angen i'r bwrdd iechyd eu cymryd isod.

*Lefelau staffio* – sicrhau bod digon o staff ar y wardiau a bod lefelau staffio'n gysylltiedig â lefelau aciwtedd cleifion ac yn ystyried canllawiau presennol yn hyn o beth.

*Hyfforddiant staff* – sicrhau bod staff yn cael mynediad at gyfleoedd hyfforddi ystyrllon sy'n datblygu eu cymhwysedd ac yn parhau i ysgogi dysgu. Lle defnyddir hyfforddiant ar-lein, mae angen system o ddilyniant a gwerthuso effeithiolrwydd y dysgu. Cadw cofnod cyfredol a chywir o hyfforddiant staff.

- **Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol**

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau ar gyfer monitro darpariaeth gwasanaeth diogel yn sail i arferion dyddiol rheolwyr wardiau. Gwelsom hefyd fod staff yn gweithio i leihau risgiau allweddol, megis cwmpau. Er gwaethaf hyn, canfu ein gweithgarwch arolygu rai themâu cyson ynghylch cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Nodir y themâu hyn a'r camau gweithredu mae angen i'r bwrdd iechyd eu cymryd isod.

*Archwilio ac effeithiolrwydd clinigol* – sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith, a'u bod yn cael eu cyflawni ac y gweithredir ar y canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys rhannu canlyniadau gyda staff, cleifion a'r cyhoedd.

*Rheoli meddyginiaethau* – sicrhau bod pob aelod o staff yn deall y gweithdrefnau cywir i'w dilyn yng nghyswllt storio a gweinyddu meddyginiaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi lleol a chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

*Dogfennau* – sicrhau bod pob aelod o staff yn deall ac yn dilyn yr egwyddorion ar gyfer cynnal safonau uchel yn gyson wrth gadw cofnodion.

## **Arolygiadau o bractisau deintyddol y GIG a/neu bractisau deintyddol preifat**

Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau deintyddol yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn. Lle y bo angen, rydym hefyd yn gwneud argymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Dechreuodd ein harolygiadau o bractisau deintyddol yng Nghymru ym mis Awst

2014. Mae ein rhaglen reolaidd o arolygiadau deintyddol yn golygu y bydd AGIC yn arolygu pob practis deintyddol o leiaf unwaith bob tair blynedd. Os ydym yn derbyn gwybodaeth am ddeintydd efallai nad yw'n bodloni'r safonau gofynnol, efallai y byddwn yn cynnal arolygiadau'n fwy rheolaidd.

Cynhelir ein harolygiadau gan reolwr arolygu AGIC profiadol ynghyd ag adolygydd allanol sy'n ddeintydd â phrofiad ymarferol diweddar o ddeintyddiaeth.

Yn ystod ein harolygiadau rydym yn ystyried y meysydd canlynol:

- **Profiad y claf** – rydym yn gofyn i gleifion beth maent yn ei feddwl am y practis.
- **Safonau** – rydym yn archwilio sut mae'r practis yn bodloni'r safonau gofynnol sy'n gysylltiedig â meysydd penodol deintyddiaeth.
- **Rheolaeth ac arweinyddiaeth** – rydym yn ystyried sut y rheolir y practis. Rydym yn gwirio bod polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod staff a chleifion yn ddiogel.
- **Amgylchedd y practis** – rydym yn edrych ar yr adeilad a'r cyfleusterau sydd yn y practis er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac yn ddiogel ar gyfer cleifion a staff.

Rydym yn arolygu deintyddion y GIG, deintyddion sy'n gwneud gwaith preifat, a deintyddion sy'n gwneud cymysgedd o waith preifat a gwaith y GIG. Rydym yn gwirio bod deintyddion yn bodloni safonau'r GIG a, ble'n berthnasol, gofynion cyfreithiol Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

#### **Themâu arolygiadau:**

- **Profiad y claf**  
Ar y cyfan, mae'r adborth a dderbyniodd AGIC gan gleifion wedi bod yn gadarnhaol, ac roedd cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a ddarparwyd. Er hyn, canfu ein gweithgarwch arolygu rai themâu cyson ynghylch profiad y claf. Nodir y themâu hyn a'r camau gweithredu mae angen i'r bwrdd iechyd eu cymryd isod.

*Cwynion* – sicrhau bod gwybodaeth i'r cleifion am sut i gwyno yn hygyrch ac yn cydymffurfio â gofynion canllawiau, safonau a rheoliadau perthnasol.

*Adborth cleifion* – sicrhau bod gan bractisau drefniadau effeithiol ar waith i geisio barn cleifion a gweithredu yn ei sgil.

- **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru**

Ar y cyfan, gwelsom fod practisau'n darparu gwasanaethau oedd yn gyson â'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Er hyn, canfu ein gweithgarwch adolygu rai themâu cyson ynghylch cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Nodir y themâu hyn a'r camau gweithredu mae angen i'r bwrdd iechyd eu cymryd isod.

*Hanesion meddygol* – sicrhau bod hanesion meddygol cyfredol yn cael eu casglu ar gyfer pob claf ac yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd i gadarnhau ei fod wedi eu darllen ac wedi gweithredu yn eu sgil.

*Offer* – sicrhau bod offer yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn ddi-haint.

*Rheoli heintiau* – sicrhau effeithiolrwydd trefniadau rheoli heintiau gan gynnwys hyfforddi staff yn y maes hwn.

- **Rheolaeth ac arweinyddiaeth**

Ar y cyfan, roedd practisau'n cael eu rheoli a'u harwain yn dda, ac roedd ganddynt dimau o staff ymroddedig. Gwelsom wendidau o ran arweinyddiaeth ar safleoedd y practisau oedd yn eiddo i berchnogion corfforaethol y gwnaethom ymweld â nhw. Er bod adroddiadau practisau unigol wedi canfod meysydd sydd angen eu gwella, nid oes unrhyw themâu penodol wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â hyn.

- **Ansawdd yr amgylchedd**

Ar y cyfan, gwelsom fod adeiladau practisau'n amgylcheddau diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Er bod adroddiadau practisau unigol wedi canfod meysydd sydd angen eu gwella, nid oes unrhyw themâu penodol wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â hyn.

## **Arolygiadau o bractisau cyffredinol**

Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Dysgu at y dyfodol: Symud ymlaen ac adeiladu ar argymhellion ymchwiliad Robert Powell'. Roedd y ddogfen hon yn nodi naw cam gweithredu, yr oedd un ohonynt yn gofyn bod AGIC yn ymgymryd â rhaglen barhaus o adolygiadau i brofi pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu mewn byrddau iechyd lleol ar gyfer sicrhau ansawdd gofal sylfaenol.

Yn ystod 2013, gwnaethom adolygu'r gweithdrefnau a phrosesau sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau ansawdd gofal sylfaenol, ynghyd â gwybodaeth a dderbyniwyd gan fyrrddau iechyd lleol ynglŷn â'u trefniadau llywodraethu yn y maes hwn. Gwnaeth ein canfyddiadau o'r dadansoddiad hwn lywio datblygiad rhaglen arolygu ar gyfer practisau meddygon teulu.

Roedd y rhaglen arolygu hon yn rhoi prawf annibynnol ar y gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu mewn gwirionedd i gleifion gan eu meddyg teulu. Cynlluniwyd yr arolygiadau i dynnu ar wybodaeth a dulliau hunanasesu presennol i leihau'r baich i feddygon teulu ac ychwanegu gwerth at y prosesau hynny sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Gwnaethom weithio mewn modd cydweithredol a chyflenwol gyda chynghorau iechyd cymuned sydd eisoes yn ymweld â phractisau meddygon teulu.

Gwnaethom sefydlu grŵp cyfeirio er mwyn cael barn amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys, rheolwyr practis, byrddau iechyd lleol, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chynghorau iechyd cymuned. Mae'r grŵp wedi darparu adborth ar ein cynlluniau, a bydd yn parhau i gyfarfod i ddarparu her a chynghor wrth i'r rhaglen ddatblygu.

Yn ystod 2014/15, gwnaethom roi'r rhaglen arolygu hon ar brawf mewn un bwrdd iechyd lleol penodol i ddechrau, ac yna ledled Cymru. Roedd yr arolygiadau hyn yn canolbwyntio ar y themâu a nodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i achos Robert Powell, sef:

- Gwell cyfathrebu ac ymwneud â chleifion a'u teuluoedd
- Mynediad at gofnodion meddygol a'u rheoli
- Gwella cyfathrebu i sicrhau dilyniant o ran gofal
- Ymdrin â phryderon a chwynion yn dilyn marwolaeth claf

Yn y blynyddoedd i ddod, rydym yn bwriadu cynnal arolygiadau thematig gwahanol o bractisau meddygon teulu, a byddwn yn datblygu'r cynlluniau hyn mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

## **Themâu arolygiadau:**

### **Profiad y Claf**

Ar y cyfan, gwelsom fod practisau'n darparu gwasanaeth o safon uchel, ac roedd yr adborth a gafodd AGIC gan gleifion yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol. Er bod adroddiadau practisau unigol wedi canfod meysydd sydd angen eu gwella, nid oes unrhyw themâu penodol wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â hyn.

### **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru**

Ar y cyfan, gwelsom fod practisau'n darparu gwasanaethau oedd yn cydymffurfio â'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Er hyn, gwnaeth ein gweithgarwch adolygu nodi rhai themâu cyson ynghylch cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Nodir y themâu hyn a'r camau gweithredu mae angen i'r bwrdd iechyd eu cymryd isod.

*Adborth cleifion* – sicrhau bod practisau'n ystyried dulliau a fydd yn galluogi i'r holl gleifion gynnig adborth.

*Cyfathrebu* – sicrhau bod gwybodaeth am y practis ar gael mewn amrywiaeth o fformatau i fodloni anghenion cleifion newydd a chleifion presennol.

Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u hawliau a chyfrifoldebau wrth uwchgyfeirio pryderon am ofal cleifion, y tu hwnt i sianeli a strwythurau rheoli arferol, petai'r angen yn codi.

*Cwynion* – sicrhau bod manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned yn cael eu cynnwys yng ngweithdrefn cwynion y practis. Adolygu'r cofnodion cwynion anffurfiol er mwyn canfod themâu a gwella gwasanaethau.

*Cadw cofnodion* – sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cynnal i safon dderbyniol.

### **Rheolaeth ac arweinyddiaeth**

Ar y cyfan, roedd practisau'n cael eu rheoli a'u harwain yn dda, gyda thimau o staff ymroddedig. Er bod adroddiadau practisau unigol wedi canfod meysydd sydd angen eu gwella, nid oes unrhyw themâu penodol wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â hyn.

### **Ansawdd yr amgylchedd**

Ar y cyfan, gwelwyd bod adeiladau practisau'n darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Er bod adroddiadau practisau unigol wedi canfod meysydd sydd angen eu gwella, nid oes unrhyw themâu penodol wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â hyn.

## **Iechyd meddwl**

Mae gwasanaethau iechyd meddwl y bwrdd iechyd yn cael eu rheoli gan fyrddau iechyd cyfagos, ond mae'r ystadau'n parhau i gael eu rheoli gan Bowys.

### **Problemau:**



- Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu, Awst 2014 – mae angen diweddarau'r amgylchedd. Yn benodol, roedd nifer o beryglon baglu oherwydd bod y llawr wedi gwisgo, ac roedd yn peri perygl posibl i bobl hŷn sy'n derbyn gofal ar y ward (Awst 2014). Nododd y bwrdd iechyd y byddai'n adolygu'r amgylchedd/llawr.
- Nid oedd dogfennau yn ymwneud â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gael ar y ward. Nid oedd staff felly'n gallu dangos bod cleifion yn cael eu cadw yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth hon.
- Ysbyty Bronllys, Mehefin 2014 – nodwyd problemau sylweddol yn ymwneud â derbyniadau cleifion heb eu trefnu i'r ward iechyd meddwl 'y tu allan i oriau'. Mae'n ofynnol bod cleifion o ardal de Powys yn cael eu derbyn i ysbyty ym Mhont-y-pŵl, a gall hyn achosi niwed sylweddol i les cleifion pan fydd angen iddynt gael eu cludo dros y pellter hwn. Ysbyty Bronllys, Mehefin 2014. Gwnaethom godi pryderon eto ynghylch diben yr ystafell 'ymdawelu', sy'n ystafell o'r neilltu yn ôl pob golwg, na ellir ei chloi. Ymroddodd y bwrdd iechyd i adolygu diben yr ystafell a'i dodrefnu'n briodol.

## Arferion nodedig

Gwelwyd llawer o arferion oedd yn werth eu nodi yn ystod ein harolygiadau. Mae rhai o'r rhain i'w gweld isod.

### **Arolygiadau urddas a gofal hanfodol**

O ganlyniad i waith gan dîm effeithiol, oedd yn cael ei redeg yn dda gyda phroses effeithlon iawn o'r apwyntiad cyntaf at y llawdriniaeth, gwelsom lefelau nodedig o uchel o foddhad cleifion ar uned llawdriniaeth ddydd Elan yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod.

O ganlyniad i adolygiad y bwrdd iechyd ei hun o gadw cofnodion, roedd dogfennau newydd sbon wedi cael eu dylunio ar gyfer cofnodion cleifion ac wedi cael eu rhoi ar waith ledled ei ysbytai ym mis Chwefror 2015.

### **Meddygon teulu**

Ar y cyfan, gwelsom fod meddygon teulu'n dangos amrywiaeth eang o sgiliau datblygedig oherwydd yr angen iddynt allu ymateb i a gofalu am fân anafiadau, salwch difrifol, salwch parhaus, a gofal cleifion mewnol yn y boblogaeth wledig hon sy'n bell o wasanaethau ysbyty cyffredinol dosbarth.

## Llywodraethu ac atebolrwydd

Nod craidd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yw gwella ansawdd ac amrywiaeth y gwasanaethau sydd ar gael i bobl leol a sicrhau mynediad prydlon at wasanaethau iechyd diogel ac addas lle bo angen.

Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried i ba raddau mae'n bodloni'r nod hwn yng nghyd-destun y gweithgarwch arolygu a ymgwymerwyd gan AGIC yn ystod 2014/15. Bydd yn bwysig i AGIC ganfod a yw ein canfyddiadau wedi bod yn sbardun i weithgarwch archwilio a sicrhau ansawdd y bwrdd iechyd ei hun, neu a yw gweithredoedd y bwrdd iechyd mewn ymateb i'n hargymhellion wedi cael eu cyfyngu i'r safleoedd hynny rydym wedi eu harolygu.

Bydd hyn yn ffactor i'w ystyried yn ystod rhaglen archwilio AGIC yn 2015/16, fel rhan o werthusiad ehangach AGIC o drefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer monitro a sicrhau effeithiolrwydd ei wasanaethau. I'r perwyl hwn, bydd AGIC yn ystyried y materion canlynol, ond ni fydd yn gyfyngedig ganddynt, mewn perthynas â systemau archwilio ac effeithiolrwydd clinigol:

- I ba raddau mae gweithwyr proffesiynol rheng flaen, clinigol a rheoli, sy'n ymdrin â chleifion yn uniongyrchol, wedi'u hymrymuso'n ddigonol i leisio eu barn a chymryd camau os byddant yn nodi problemau'n debyg i'r rhai a ganfuwyd yn yr arolygiad hwn, ac yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.
- I ba raddau y mae diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu yn y bwrdd iechyd sy'n cynorthwyo'r staff i nodi ac i ddatrys problemau.
- I ba raddau y mae gan y bwrdd iechyd y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws pob ymyriad clinigol ac i gymryd camau cyflym pan fo diffygion.

## Ymgysylltu

Yn ystod 2014/15, cyfarfu Kate Chamberlain, prif weithredwr AGIC, ynghyd â Robin Bradfield – y rheolwr perthynas – â phrif weithredwr a chadeirydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 27 Tachwedd 2014.

Yn ystod 2014/15, mae Robin Bradfield wedi mynychu un pwyllgor ansawdd a diogelwch yn y bwrdd iechyd ar 9 Hydref 2014 a dau gyfarfod yn Swyddfa Archwilio Cymru gydag arweinwyr archwiliad perfformiad y bwrdd iechyd.

Yn ystod 2014/15, mae AGIC wedi anfon dau lythyr at y bwrdd iechyd. Roedd un yn ymwneud â chwympau cleifion yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu a'r llall yn ymwneud â rheoli heintiau yn Ysbyty Trefyclo. Yn y ddau achos, derbyniodd AGIC ddigon o sicrwydd gan y bwrdd iechyd bod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

## Adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig

Ni wnaeth AGIC ymgymryd ag unrhyw adolygiadau neu ymchwiliadau arbennig o fewn y bwrdd iechyd yn ystod 2014/15.

## Ymweliadau dilynol a sicrwydd ar unwaith

### Ymweliadau dilynol

Cyhoeddodd AGIC adroddiad yn dilyn pob arolygiad, ac roedd pob adroddiad yn cynnwys cynllun sy'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Ym mhob achos, cyflwynodd y bwrdd iechyd/practisau gynlluniau gwella prydlon yn nodi eu hymatebion i'r argymhellion ynddynt. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol, a gwelwyd eu bod yn darparu sicrwydd digonol i AGIC. Roedd hyn oherwydd bod y gwelliannau a nodwyd naill ai wedi cael sylw a/neu fod tystiolaeth i ddangos bod cynnydd yn cael ei wneud gan y bwrdd iechyd/practisau mewn ymateb i'r argymhellion ar gyfer gwella. Ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd/practisau i'w hysbysu o ganlyniad y gwerthusiad hwn.

Bydd AGIC yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y bwrdd iechyd/practisau wrth fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion a wnaed o ganlyniad i'w weithgarwch arolygu. Os na fydd camau gweithredu o fewn cynlluniau gwella wedi derbyn sylw a/neu ar waith, disgwylir hefyd i'r bwrdd iechyd/practis ddarparu diweddariadau i AGIC i gadarnhau pryd y rhoddir sylw i'r materion hyn.

### Sicrwydd ar unwaith

Mae AGIC wedi cyflwyno tri llythyr sicrwydd ar unwaith o ganlyniad i'w weithgarwch arolygu ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Roedd dau yn ymwneud â phroblemau a nodwyd yn ystod arolygiadau urddas a gofal hanfodol ac un yn ymwneud â phroblemau a nodwyd yn ystod arolygiad deintyddol. Ym mhob achos, derbyniwyd ymateb prydlon gan y bwrdd iechyd/practis. Hefyd, cafodd pob ymateb ei werthuso, a rhoddwyd digon o sicrwydd i AGIC. Roedd hyn oherwydd bod y gwelliannau a nodwyd naill ai wedi derbyn sylw a/neu fod tystiolaeth i ddangos bod cynnydd yn cael ei wneud gan y bwrdd iechyd/practis mewn ymateb i'r pryderon ar unwaith. Ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd/practis i'w hysbysu o ganlyniad y gwerthusiad hwn.

## Gweithgarwch Arolygu

### Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Math o Arolygiad	Adroddiad cysylltiedig â lleoliad	Dyddiad
Arolygiadau deintyddol	<a href="#">Practis Deintyddol Mr M. J. Taylor</a>	18/11/2014
	<a href="#">Cwmni Deintyddol IDH, Crucywel</a>	20/11/2014
	<a href="#">Practis Deintyddol Orchard Corner</a>	15/12/2014
	<a href="#">Practis Deintyddol IDH Llanfair-ym-Muallt</a>	05/02/2015
	<a href="#">Practis Deintyddol Rhaeadr</a>	11/03/2015
	Cwmni Deintyddol IDH, Aberhonddu	17/03/2015
	<a href="#">Practis Deintyddol Cloverly</a>	25/03/2015
	<a href="#">Deintyddfa Powell</a>	26/03/2015
Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol	<a href="#">Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu</a>	08/10/2014
	<a href="#">Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod</a>	06/11/2014
	<a href="#">Ysbyty Sirol Trefaldwyn</a>	04/12/2014
	<a href="#">Ysbyty Coffa Victoria</a>	20/01/2015
	<a href="#">Ysbyty Bro Ddyfi, Machynlleth</a>	17/02/2015
	<a href="#">Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes a'r Cyffiniau</a>	24/02/2015
Arolygiadau Meddygon Teulu (arolygiadau peilot, heb eu cyhoeddi)	Canolfan Feddygol y Drenewydd	21/10/2014
	Canolfan Iechyd Glantwymyn	23/10/2014
	Practis Grŵp Llanfyllin	24/11/2014
	Practis Meddygol Caereinion	12/01/2015

### Gofal Iechyd Annibynnol

Math o Arolygiad	Adroddiad cysylltiedig â lleoliad	Dyddiad
Laser	<a href="#">Gavin Steele Tattoo Studio, Y Drenewydd</a>	03/07/2014
Deddf Iechyd Meddwl	<a href="#">Phoenix House</a>	28/01/2015
Uned Iechyd Meddwl	<a href="#">Phoenix House</a>	28/01/2015

Dyddiad cynhyrchu: Gorffennaf 2015